# Dyfarnu trwydded amlblecs radio graddfa fach: Llandudno a Betws-y-Coed

## Cefndir

Mae Ofcom wedi penderfynu dyfarnu trwydded amlblecs radio graddfa fach newydd ar gyfer Llandudno a Betws-y-Coed i Bay Community Digital CIC ("SBCD").

Wrth ystyried y ceisiadau y mae'n eu derbyn am drwyddedau amlblecs radio graddfa fach, mae'n ofynnol i Ofcom ystyried pob un o'r meini prawf statudol a nodir yn adran 51(2) Deddf Darlledu 1996 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Amlblecs Radio Graddfa Fach a Radio Digidol Cymunedol 2019. Mae'r rhain fel a ganlyn:

1. cwmpas yr ardal (o fewn yr ardal neu'r lleoliad a nodir yn yr hysbysiad gan Ofcom yn gwahodd ceisiadau) y bwriedir darparu gwasanaeth iddi gan yr ymgeisydd yn y cynllun technegol a gyflwynwyd yn ei gais; (adran 51(2)(a))

2. gallu'r ymgeisydd i sefydlu'r gwasanaeth arfaethedig; (adran 51(2)(c))

3. dymunoldeb dyfarnu'r drwydded i ymgeisydd sydd:
   a. yn berson sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol yn yr ardal neu'r lleoliad hwnnw, neu
   b. â pherson fel cyfranogwr sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol yn yr ardal neu'r lleoliad; (adran 51(2)(ca))

4. i ba raddau y ceir tystiolaeth, ymhlith personau sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol neu leol yn yr ardal neu'r lleoliad hwnnw, fod galw am, neu gefnogaeth dros, ddarparu'r gwasanaeth arfaethedig; (adran 51(2)(f)) a

5. p'un a yw'r ymgeisydd, wrth gontractio neu gynnig contractio gyda phersonau sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol neu leol, wedi gweithredu mewn modd y bwriedir iddo sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny. (adran 51(2)(g)).

Nid yw'r ddeddfwriaeth yn graddio'r gofynion hyn yn nhrefn blaenoriaeth, ond mae'n bosib y bydd Ofcom yn gweld bod un neu fwy o'r meini prawf yn arbennig o bwysig o ystyried nodweddion y drwydded sydd i'w dyfarnu a'r ceisiadau a gyflwynwyd ar ei chyfer.

## Asesu'r cais

Ar 25 Ionawr 2022, cyhoeddodd Ofcom hysbysiad yn gwahodd ceisiadau am drwyddedau i ddarparu gwasanaethau amlblecs radio graddfa fach mewn sawl ardal, gan gynnwys Llandudno a Betws-y-Coed.

Erbyn y dyddiad cau o 25 Ebrill 2022, roedd Ofcom wedi derbyn un cais ar gyfer yr ardal hon gan Sound Bay Community Digital CIC ("SBCD"). Roedd copi o rannau anghyfrinachol y cais ar gael i'r cyhoedd graffu arnynt ar wefan Ofcom, a gwahoddwyd sylwadau cyhoeddus yn unol â gofynion adran 50(7). Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan y cyhoedd.

Asesodd cydweithwyr Ofcom fanylion y cais, gan gynnwys cynnal asesiad o'r cynllun technegol y mae'n ofynnol i'w cyflwyno fel rhan o bob cais. Gwnaed y penderfyniad mewn perthynas â Llandudno a Betws-y-Coed gan banel penderfynu yn Ofcom mewn cyfarfod ar 9 Medi 2022. Buont yn ystyried y cais a chyngor proffesiynol gan gydweithwyr Ofcom yn ofalus, gan gymhwyso'r meini prawf statudol wrth ddod i'w penderfyniad ynghylch a ddylid dyfarnu trwydded i'r ymgeisydd ai beidio. Rhoddir crynodeb o'r rhesymau dros eu penderfyniad i ddyfarnu'r drwydded i SBDC isod.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(a), cynigiodd yr ymgeisydd llwyddiannus i ddefnyddio dau drawsyrrydd i ddarparu ei wasanaeth. Mae cyfrifiadau Ofcom yn nodi i hyn olygu y byddai modd i oddeutu 63% o'r boblogaeth oedolion yn ardal y drwydded a hysbysebwyd dderbyn y gwasanaeth. Nododd y rhai a wnaeth y penderfyniad fod y patrwm darpariaeth yn canolbwyntio ar y rhannau arfordirol o'r ardal a hysbysebwyd sydd â phoblogaeth ddwysach ac yn anffodus na rhagfynegwyd i rai canolfannau poblogaeth arwyddocaol, yn benodol Betws-y-Coed ei hun, dderbyn darpariaeth. Er bod y ddarpariaeth gyffredinol yn gymedrol, roedd y rhai a wnaeth y penderfyniad yn deall y penderfyniad i ganolbwyntio ar yr ardaloedd arfordirol yng nghyd-destun ardal sy'n gymharol heriol i ddarparu ar ei chyfer, ac yn ystyried y gellid disgwyl iddo ddarparu gwasanaeth da yn yr ardaloedd hynny. Nododd ein rhagfynegiadau o ddarpariaeth y byddai'r gwasanaethau amlblecs radio graddfa fach arfaethedig ar gael i lawer llai na 40% o'r boblogaeth yn ardal drwydded y gwasanaeth amlblecs radio lleol i Ogledd-orllewin Cymru sy'n gorgyffwrdd ag ef, ac y byddai gorlif y signal y tu allan i'r ardal a hysbysebwyd ymhell o dan 30% o boblogaeth yr ardal a hysbysebwyd. Gan hynny, ni fyddai angen unrhyw fesurau lliniaru i gydymffurfio â'r trothwyon hyn. Nid oedd Ofcom o'r farn ychwaith ei fod yn debygol y byddai angen mesurau lliniaru i fodloni cyfyngiadau ar ymyriant a nodwyd yn yr hysbysiad yn gwahodd ceisiadau.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(c), ystyriodd Ofcom gynllun ariannol a busnes yr ymgeisydd, ei gynllun technegol, yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r ddarpariaeth, a thystiolaeth o arbenigedd a phrofiad perthnasol. Nododd y rhai a wnaeth y penderfyniad fod y cynlluniau'n cynnwys rhagamcaniadau cost cymharol uchel ac, er i hyn nodi ymagwedd realistig ar ran yr ymgeisydd, roedd rhai risgiau i lansio'r gwasanaeth. Er hynny, atgyfnerthwyd hyder yng ngallu'r ymgeisydd i sefydlu'r gwasanaeth gan arbenigedd a phrofiad y rhai sy'n ymwneud â'r cais, ac roedd y cynllun technegol (er iddo olygu cyfyngiadau o ran y ddarpariaeth a gyflawnir fel y nodir uchod) i'w weld yn realistig. Ystyriwyd felly y byddai'r orsaf mewn sefyllfa cymharol dda i lansio o fewn y cyfnod 18 mis a ganiateir yn y ddeddfwriaeth.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(ca), nododd Ofcom fod gan yr ymgeisydd ddau sefydliad fel partneriaid sy'n cynnig darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol yn yr ardal (Sound Radio Limited and Coast Community Radio & Media CIC). Ym mhob achos mae rhai risgiau mewn

perthynas â darparu eu gwasanaeth arfaethedig o adeg y lansiad. Ar hyn o bryd mae'r un cyntaf yn darparu gwasanaeth radio cymunedol analog, Sound Radio, ond mae ei ddarpariaeth analog yn bennaf (ond nid yn gyfan gwbl) y tu allan i ardal ddarpariaeth ragfynedig yr amlblecs. Mae'r ail yn darlledu ei wasanaeth, Bayside Radio, ar-lein ar hyn o bryd ac nid yw wedi ymgeisio am drwydded rhaglenni sain digidol cymunedol eto. Fodd bynnag, nododd y rhai a wnaeth y penderfyniad fod gan bob un lefel sylweddol o gyfranogiad yn y cais (fel aelodau/gwarantwyr gyda hawliau pleidleisio 25%) a'i fod yn agwedd gadarnhaol i sicrhau cyfranogiad darpar ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol mewn ardal nad oes ganddi wasanaethau radio cymunedol ar hyn o bryd.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(f), ystyriodd Ofcom dystiolaeth o alw neu gefnogaeth gan bersonau sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol neu leol yn yr ardal a hysbysebwyd. Yn ogystal â'r ddau gyfranogwr, darparodd y cais dystiolaeth o ddiddordeb mewn darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol o wasanaeth radio ar-lein presennol, Crest Radio, ac ystyriwyd bod hyn yn cynrychioli lefel gref o ddiddordeb gan y sector radio cymunedol yng nghyd-destun yr ardal. Nododd y rhai a wnaeth y penderfyniad dystiolaeth o lefel cymharol isel o alw gan wasanaethau rhaglenni sain digidol eraill, a chynghorir yr ymgeiswyr i weithio ar ddenu diddordeb pellach rhwng y dyfarniad a'r lansiad i helpu sicrhau hyfywedd tymor hwy yr amlblecs.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(g) ac yn seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniwyd, roedd Ofcom yn fodlon bod yr ymgeisydd, wrth gontractio neu gynnig contractio gyda phersonau sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol neu leol, wedi gweithredu mewn modd y bwriedir iddo sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny. Croesawodd y rhai a wnaeth y penderfyniad y disgrifiad cynhwysfawr a ddarparwyd gan yr ymgeisydd o'i waith ymgysylltu â darpar ddarparwyr, a roddodd lefel gref o sicrwydd mewn perthynas â'r maen prawf hwn.

Nodir nad yw dyfarnu trwydded yn rhoi'r hawl i'r dyfarnai weithredu pob elfen o'r cynllun technegol a gyflwynwyd i Ofcom fel rhan o'r cais llwyddiannus. Bydd Ofcom yn trin cynigion yn y cynllun hwnnw, ar y sail y gwnaed y dyfarniad arni, fel pethau y mae'r ymgeisydd llwyddiannus wedi ymrwymo i'w cyflawni o fewn y cyfnod 18 mis a ganiateir rhwng dyfarnu a lansio. Fodd bynnag, am resymau cynllunio sbectrwm, mae’n bosib y bydd Ofcom yn mynnu diwygiadau i gynigion rhwng dyfarnu a rhoi’r drwydded.

*Medi 2022*